[redacted]

[redacted]

From: Skates, Ken (Aelod Cynulliad | Assembly Member) <Ken.Skates@assembly.wales>
Sent: 14 November 2019 09:47
To: Correspondence mail - JJ <Correspondence.Julie.James@gov.wales>
Subject: FW: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - bygythiad i'r Gymraeg

Dear Julie,

I am contacting you on behalf of my constituent Janet Mitchell, who has raised concerns - outlined below - about the impact the National Development Framework will have on the Welsh language.

I would be extremely grateful for a response I can share with my constituent which offers her some reassurance.

Best wishes,

Ken

Ken Skates AM
Assembly Member for Clwyd South

01978 869058

Website: kenskates.co.uk
Facebook: facebook.com/KenSkatesAM
Twitter: twitter.com/KenSkatesAM

STAY UP TO DATE: Click here to get my regular e-newsletters sent straight to your inbox - it takes 30 seconds!

emailfooter

To view our privacy policy, click here

"Any of the statements or comments made above should be regarded as personal and not necessarily those of the National Assembly for Wales, any constituent part or connected body."

"Dylai unrhyw ddatganiadau neu sylwadau uchod gael eu trin fel rhai personol ac nid o reidrwydd fel datganiadau neu sylwadau gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, unrhywn ran ohoni neu unrhywn gorff sy'n gysylltiedig a hi."

From: Gwfan Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg [redacted] > on behalf of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg [redacted]
Sent: 12 November 2019 23:55
To: Skates, Ken (Aelod Cynulliad | Assembly Member) <Ken.Skates@assembly.wales>
Subject: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - bygythiad i'r Gymraeg

Annwyl swyddog,

Rwy'n ysgrifennu er mwyn mynegi fy mhryderon am effaith y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar y Gymraeg. O ganlyniad i'r newidiadau, bydd hi bron yn amhosib i gymunedau lleol herio datblygiadau mawr ar eu stepen drws, ac mi fyddai'n anodd dadlau bod y gyfundrefn newydd yn parchu democratiaeth leol.

Er bod llawer o sôn am y Gymraeg yn naratif y ddogfen, yn enwedig yn y sylwadau cychwynnol, pan ddaw hi at effaith cynigion penodol y ddogfen, rwy'n pryderu yn fawr y gallai gael effaith negyddol iawn ar y Gymraeg ar lefel gymunedol ynghyd â cholli cyfleoedd i annog twf yr iaith a'i defnydd.

Yn benodol, rwy'n pryderu'n fawr:

- bod y rhanbarthau a ddynodir yn y ddogfen yn strwythurol yn mynd i fod yn niweidiol i gymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, yn enwedig drwy gynnwys Sir Gâr ac Abertawe yn yr un rhanbarth a chreu un rhanbarth ar gyfer y Gogledd. Nid yw'r tri rhanbarth a ddynodir yn y ddogfen yn rhai sy'n gweddu yn naturiol yn ddaearyddol, economaidd, cymdeithasol na diwylliannol, ac mae hynny'n creu peryglon go iawn i'r Gymraeg;

- bod y Fframwaith yn hybu gor-ddatblygu tai a fydd yn niweidiol i gymunedau a'r Gymraeg, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin, y Gogledd-orllewin a'r Gogledd-ddwyrain o ganlyniad i ddynodi strwythur rhanbarthau sy'n gosod targed ar gyfer y rhanbarth cyfan ynghyd â dynodi ardaloedd Wrecsam-Glannau Dyfrdwy a De Sir Gâr fel ardaloedd o dwf cenedlaethol;

- bod y ddogfen yn mynd i annog patrymau allfudo a mewnfudo sy'n niweidiol i hyfywedd y Gymraeg drwy flaenoriaethu cysylltiadau trafnidiaeth a datblygiadau o'r Gorllewin i'r Dwyrain (megis yn ardal y Gogledd-Dwyrain) yn lle cysylltiadau De-Gogledd; nad oes cydnabyddiaeth o'r angen i adnabod cymunedau lle dylid anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith y gymuned.

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf:

- natur annemocrataidd y cynigion gan gynnwys aelodau anetholedig ar bwyllgorau'r Cynlluniau Datblygu Strategol, gorfodi cyfuno cynlluniau datblygu lleol a gorfodi awdurdodau i gyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol.

- dynodi ardal Wrecsam-Glannau Dyfrdwy a De Sir Gâr fel ardaloedd o dwf cenedlaethol oherwydd eu heffaith negyddol ar batrymau allfudo a mewnfudo fyddai'n niweidiol i'r Gymraeg.

Yn lle, rwy'n credu y dylai'r Fframwaith gynnwys:

- polisi penodol ar gyfer tyfu nifer y cymunedau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y gymuned, gan gynnwys nod o gynyddu nifer y cymunedau hyn ac anogaeth yn y Fframwaith i bob un awdurdod lleol flaenoriaethu hyn;

- polisi i ddod â'r stoc tai presennol, yn enwedig eiddo wag ac ail gartrefi, i mewn i ddefnydd ar gyfer pobl leol cyn adeiladu tai newydd oherwydd y budd i gynnal gwasanaethau cymunedol, y budd i'r Gymraeg a'r budd i'r economi leol;

- nodi bod angen i awdurdodau flaenoriaethu datblygiadau sy'n dynodi tai i bobl leol yn unig; - categori o gysylltiadau trafnidiaeth cenedlaethol Cymreig rhwng y De a'r Gogledd a ddylai gael ei nodi fel blaenoriaeth i wella mewn ffordd gynaliadwy, gan flaenoriaethu trenau, bysiau, cerdded a seiclo;

- polisi penodol yn ddogfen i gefnogi ail-agor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin-Aberystwyth gan roi'r un flaenoriaeth i hyn â'r hyn mae dogfen yn ei wneud i Faes Awyr Caerdydd;

Yn gywir,

janet mitchell

[redacted]